Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

National Assembly for Wales
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

George Eustice MP
Minister of State for Agriculture, Fisheries and Food
Nobel House
Smith Square
London SW1P 3JR

7 Chwefror 2017

Annwyl Weinidog Gwladol

Tynnu yn ôl o ddod i gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig - 9 Chwefror 2017

Yr wyf yn hynod siomedig eich bod wedi tynnu'n ôl o ymddangos gerbron y Pwyllgor wrth roi cyn lleied o rybudd.

Mae'r Pwyllgor wedi ceisio ymgysylltu â Gweinidogion y DU trwy gydol ei ymchwiliad i ddyfodol polisïau amaethyddol a gwledig yng Nghymru. Mae gwahoddiadau i ddod i gyfarfodydd wedi cael eu hymestyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a chithau. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi bod yn hynod hyblyg wrth geisio hwyluso eich presenoldeb, trwy gynnig sawl dyddiad posibl ar gyfer cyfarfod a'r posibilrwydd o gynhadledd fideo.

Gwrthododd yr Ysgrifennydd Gwladol y gwahoddiad gan y Pwyllgor, ac yn lle hynny, cytunodd i gwrdd â mi fel Cadeirydd y Pwyllgor. Yn dilyn hynny, canslodd yr Ysgrifennydd Gwladol y cyfarfod hwnnw ar fyr rybudd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Roeddech wedi cytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor. Fodd bynnag, yr ydych yn awr wedi rhoi gwybod i mi, dau ddiwrnod cyn y dylid cynnal y cyfarfod, na fyddwch yn bresennol.

Byddwch yn deall bod y gwrthodiad, neu felly ymddengys, gan Weinidogion y DU i ymgysylltu â phrif bwyllgor y Cynulliad ar bolisi amaethyddol yn fater o bryder mawr.

O ystyried pwysigrwydd polisi amaethyddol a ffermio yng Nghymru, mae'n hanfodol i Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru gael clywed yn uniongyrchol gan Weinidogion yn Llywodraeth y DU. At hynny, bydd sicrhau bod polisi amaethyddol yn y dyfodol yn llwyddiant yng Nghymru ac ar lefel y DU yn dibynnu'n helaeth ar gydweithrediad a chyd-barch rhwng y Cynulliad a Llywodraeth y DU. Mae profiad diweddar y Pwyllgor wrth geisio ymgysylltu â Gweinidogion y DU yn codi amheuaeth ynglŷn ag ymrwymiad Llywodraeth y DU o ran ei hewyllys i gydweithredu a dangos parch.

Nodaf fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, mewn ateb i gwestiwn seneddol, wedi datgan:

".....no powers existing in the devolved Administrations will come back [to Westminster], but there will be powers coming from the European Union and we will have to decide where they most properly land, whether that is Westminster, Holyrood or wherever."

Mae polisi amaethyddol wedi'i ddatganoli. Ni fydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn arwain at drosglwyddo unrhyw bwerau datganoledig i Lywodraeth y DU. Ni fydd ond yn arwain at ddiddymu cyfyngiadau'r UE ar arfer y pwerau datganoledig hynny. Mae'r safbwynt a fynegwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn dangos camddealltwriaeth y mae'r Pwyllgor hwn am fynd i'r afael â hi gyda Gweinidogion perthnasol y DU fel mater o frys.

Yn olaf, hoffwn dynnu eich sylw at Nodyn Cyfarwyddyd ar Ddatganoli Llywodraeth y DU. Mae paragraff 12 yn datgan:

“On all occasions, and whatever the intention as regards attendance, Ministers and their officials should deal with devolved Committees with the same courtesy, respect and promptness as they would use in dealing with Westminster Select Committees. The Government wishes the devolved arrangements in Scotland, Wales and Northern Ireland to continue operating effectively within the new constitutional frameworks that have been provided. Behaving in the proper way towards the devolved legislatures’ Committees is one way of achieving this aim.”

Yr wyf yn disgwyl, fel mater o gwrteisi a pharch i'r Pwyllgor ac i'r Cynulliad, y byddwch yn cytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher 15 Chwefror neu ddydd Mercher 8 Mawrth, sef yr unig sesiynau sydd ar ôl lle y gallwn gymryd tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

Yn gywir

Mark Reckless AC

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig